



Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru 2022



@CSCHumanities

Gellir gweld y canllawiau Cwricwlwm i Gymru gorfodol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yma:

hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm

Beth yw 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg'?

- Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn bwnc statudol yn y Cwricwlwm i Gymru 2022.
- Mae 'Addysg Grefyddol' wedi ei ddisodli gan 'Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg' i adlewyrchu'r diweddariad i bynciau academiaidd ar gyfer Cymru y 21ain ganrif a thu hwnt i gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.
- Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn canolbwyntio ar ddeall credoau crefyddol ac anghrefyddol, arferion, gwerthoedd a moeseg. Mae'n datblygu dealltwriaeth o'r materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth, byd-olygon crefyddol ac anghrefyddol, heriau moesegol a materion cynhwysiant cymdeithasol.
- Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ('CGM') yn un o'r pum maes pwnc ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.
- Mae'n cadarnhau persbectifau Hanesyddol, Daearyddol, Economaidd a Chymdeithasol a ddarperir drwy bynciau eraill y Dyniaethau.

Pam mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o'r Cwricwlwm i Gymru?

Mae deall amrywiaeth argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol yn rhan agwedd allweddol ar ddeall bywyd cyfoes yng Nghymru.

Dewiswyd 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' (CGM) fel yr enw er mwyn cynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn ogystal â chrefyddau sy'n adlewyrchu bywyd cyfoes yng Nghymru a thu hwnt.

Mae cynnwys y pwnc yn hollbwysig ar gyfer gwireddu'r Pedwar Diben. Mae'n helpu datblygu:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau.
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.



Gwybodaeth

Mae gwybodaeth bwnc bwysig yn ymwneud â:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o gredoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol sefydliadol a phersonol gan ystyried y ffyrdd maen nhw wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes.
- Cwestiynau eithaf ac athronyddol am ystyr, arwyddocâd a phwrpas bywyd, a natur y meddwl dynol a'r bydysawd, a'r cysylltiadau rhyngddynt.
- Amrywiaeth o ffynonellau doethineb ac athroniaeth sy'n eu hannog i archwilio heriau, cyfleoedd ac ymatebion bodau dynol yng nghyd-destun eu cynefin, yn lleol, yng Nghymru a'r byd ehangach.
- Datblygu amrywiaeth o werthoedd, credoau moesegol ac ysbrydolrwydd drwy archwilio argyhoeddiadau crefyddol ac anghrefyddol.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn galluogi archwiliad o amrywiaeth o gysyniadau allweddol, gan gynnwys: chwilfrydedd, cwestiynau eithaf, cyflwr dynol, rhyfeddod, crefydd, crefydd bob-dydd, bydolygon, seciwlaredd, ysbrydolrwydd, safiad mewn bywyd, hunaniaeth, diwylliant, credoau crefyddol ac anghrefyddol ac arferion, cred, ffydd, gwirionedd, pwrpas, ystyr, gwybodaeth, ffynonellau awdurdod, yr hunan, tarddiad, bywyd, marwolaeth, a realiti eithaf, natur bywyd, y byd, perthyn, perthnasoedd, cymuned, cynefin, amrywiaeth, plwraliaeth, cydgysylltiad, ymdeimlad o'r hunan, tegwch, cynaliadwyedd, goddefgarwch, rhyddid, rhagfarn, gwahaniaethu, eithafiaeth, da a drwg, crefyddoldeb, defod, traddodiad, addoli, cysegredigrwydd, symbolaeth, dathlu, moeseg, moesoldeb, cyfiawnder, cyfrifoldebau, awdurdod, dynoliaeth, hawliau, gwerthoedd a gweithredu cymdeithasol.

Sgiliau

Mae sgiliau pwnc pwysig yn cynnwys:

- Ymholi crefyddol. Archwilio argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol drwy werthoedd a moeseg.
- Trafod a dadlau argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol, deall a datrys safbwyntiau a barn gwahanol.
- Y gallu i fyfyrion feirniadol, yn wrthrychol ac o ymagwedd lluosogol tuag at grefyddau, gwerthoedd a moeseg, gan ffurfio barnau.
- Gwerthuso materion moesegol ac athronyddol, o'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol, gan ddefnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol.
- Mynegi a chyfiawnhau eu safbwyntiau eu hunain, tra'n ymateb yn sensitif i fydolygon eraill, gan eu paratoi nhw ar gyfer dysgu gydol oes mewn byd lluosogol ac amrywiol.

Profiadau

Gallai profiadau dysgu pwysig gynnwys ymgysylltu â'r canlynol:

- Ymwneud â safleoedd diwylliannol a chrefyddol, gan gynnwys lleoedd sy'n arwyddocaol i'r rhai y mae eu ffydd a'u cred yn bwysig iddyn nhw
- Profi ynghyd â myfyrion ar ryfeddod y byd naturiol
- Ymwneud ag arteffactau a thestunau o arwyddocâd hanesyddol a chrefyddol
- Ymwneud â phobl sydd â phrofiad o grefydd a bydolygon byw
- Arsylwi neu gymryd rhan mewn dathliadau allweddol, traddodiadau a diwylliannau amrywiol yng Nghymru; dadleuon ffurfiol ac anffurfiol; prosiectau gweithredu cymdeithasol; dathliadau allweddol, traddodiadau a ffyrdd o fyw yn y byd ehangach.

Sut gallai cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gysylltu â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig?

- Beth yw'r gwahanol safbwyntiau a phersbectifau ar faterion crefyddol, athronyddol a moesegol?
- Sut gall bydolygon ddylanwadu ar ganfyddiadau a dehongliadau cyd-destunol yn dylanwadu ar gredoau crefyddol ac anghrefyddol?
- Sut gall dehongliadau o gredoau wahaniaethu a pham?
- Sut mae ffynonellau doethineb yn ddilys? I bwy? Pam?
- Sut gall amrywiaeth o bobl gael yr un wybodaeth ac eto cael amrywiaeth o safbwyntiau a dehongliadau?

- Sut mae ymdeimlad o hunaniaeth yn adeiladu synnwyr o'r hunan a pherthyn i bobl grefyddol ac anghrefyddol?
- Sut gall aelodau crefyddol ac anghrefyddol ffurfio'r cymunedau maen nhw'n byw ynddynt?
- Sut mae cymdeithasau crefyddol ac anghrefyddol yng Nghymru yn newid? Pa effaith sydd ganddynt ar gymdeithasau?
- Beth yw'r heriau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol sy'n wynebu cymunedau crefyddol ac anghrefyddol yng Nghymru a thu hwnt?
- Sut mae cymunedau crefyddol yn cael eu trefnu, eu strwythuro a'u harwain?
- Sut gall pobl ddatblygu dealltwriaeth oddefgar ac empathetig o'r amrywiol gredoau, gwerthoedd, traddodiadau ac egwyddorion sy'n llywio cymdeithas ddynol?

Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.

Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.

Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.

Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

- Sut ydyn ni'n defnyddio sgiliau ymholi i archwilio astudiaethau achos crefydd, gwerthoedd a moeseg?
- Sut y gellir archwilio a chwestiynu argyhoeddiadau crefyddol ac anghrefyddol?
- Sut gall dysgwyr ddod i farn wybodus ar gyfer cyfyng-gyngor moesegol neu athronyddol?
- Sut gall 'bydolygon' ddylanwadu ar ymatebion i faterion crefyddol, moesegol neu athronyddol?

- Pa mor gynaliadwy a moesegol yw ein harferion a'n ffyrdd o fyw?
- Sut gall bodau dynol effeithio ar newid effaith newid byd-eang yn yr hinsawdd?
- Beth yw cyfrifoldebau moesegol bodau dynol? Ydyn nhw'n 'stiwardiaid' yn y byd?
- Ydy credau crefyddol ac anghrefyddol yn dylanwadu ar sut mae bodau dynol yn gofalu am y byd a'i adnoddau?
- Beth yw'r ystod o gredoau ac athroniaethau crefyddol ac anghrefyddol ynghylch y driniaeth foesegol o'r ddaear? Sut maen nhw'n dylanwadu ar eu rhyngweithio â'r byd?

- Beth yw ein hawliau fel aelodau o gymdeithas grefyddol ac anghrefyddol?
- Pa gyfrifoldebau sydd gan fodau dynol dros yr amgylchedd a materion cymdeithasol a moesegol?
- Pa mor ddifrifol mae'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau crefyddol ac anghrefyddol a beth allwn ni wneud amdanynt?
- Pa weithredu cymdeithasol gall ddilynwyd crefyddol ac anghrefyddol ymroi iddo?
- Pam dylai bodau dynol fyw mewn cymdeithas deg a chyfiawn?



Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service



@CSCHumanities

**Grymuso ysgolion i wella
deilliannau i bob dysgwr**

**Empowering schools to improve
outcomes for all learners**